

# *YR HEUWR*

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 35
MEHEFIN 2010

Os ydych yn frwd dros bêl droed, boed yn gefnogwr neu'n chwaraewr, yna mae gwledd yn eich disgwyl yn ddiweddarach y mis hwn. O'r 11eg o Fehefin hyd at yr 11eg o Orffennaf bydd y byd pêl droed yn llawn cyffro wrth i gystadleuaeth Cwpan y Byd gael ei chynnal yn Ne Affrig. Dyma'r tro cyntaf i'r gystadleuaeth gyrraedd cyfandir yr Affrig a mawr yw'r disgwyl am yr ymwelwyr o dramor. Bydd y cyffro yn cychwyn gyda'r gêm agoriadol rhwng De Affrig a Mecsico yn Johannesburg ac o hynny ymlaen tan canol mis Gorffennaf fe welir gwledydd o bob cyfandir yn cymryd rhan yn y wledd bêl droed. I'r rhai hynny ohonom sydd ddim yn or-hoff o'r gêm rhaid cyfaddef y bydd hi'n anodd iawn osgoi'r bêl gron yn ystod yr wythnosau yma.

Ond brwd neu beidio, fe wyddom fod chwaraeon o fudd mawr i gymdeithas, boed yn bêl droed, rygbi neu griced. Mae'r gallu i chwarae fel rhan o dîm yn medru dysgu gwersi pwysig inni mewn bywyd ac yn gymorth inni ddatblygu sgiliau cymdeithasol hanfodol. O fewn unrhyw dîm y mae gan bawb gryfderau a gwendidau gwahanol, a'r dasg yw cyd-weithio i sicrhau bod y tîm yn gwneud ei orau. O fewn y tîm bydd angen bod yn amyneddgar gyda'r aelodau sydd efallai yn llai chwim neu'n llai galluog na'r chwaraewyr gorau. Bydd rhaid wrth hunan-ddisgyblaeth hefyd i ymarfer yn galed ac i ymroi i wneud eich gorau dros y tîm. Bydd angen ymddiried yn ein gilydd a gwerthfawrogi cyfraniad pob un aelod. Ydy, y mae'r tîm yn holl bwysig a chofiwn na sgoriodd yr un pêl-droediwr gôl heb fod ganddo dîm yn ei gefnogi ac yn ei gynorthwyo. Aelod arall o'r tîm yw'r hyfforddwr ac er na welwn ni ef ar y maes y mae'r hyfforddwr yn hanfodol. Ef neu hi yw'r un sydd yn annog y tîm, yn rhybuddio am dactegau'r gwrthwynebwyr, ac yn trefnu'r hyfforddiant. A bydd angen dweud y drefn weithiau hefyd!

Gall Cystadleuaeth Cwpan y Byd ein hatgoffa fel eglwys bod yna wersi pwysig i'w dysgu wrth i ninnau geisio gweithio mewn tîm i hyrwyddo efengyl Iesu Grist yn ein cymdeithas. Mae gan bawb ohonom ran yn y tîm a chyfraniad gwerthfawr i'w wneud i lwyddiant teyrnas Crist. Nid oes yr un aelod yn bwysicach na'r llall ac y mae gennym bob yr un ohonom waith i'w gyflawni dros Iesu. Yn yr un modd y mae gennym hyfforddwr penigamp yng Nghrist. Fe ddaeth i'n hyfforddi ym mhethau'r deyrnas, i roi arweiniad, i godi calon, i ddweud y drefn ac i'n rhybuddio am ein gwrthwynebwyr. A wyddoch chi, mae'n dal i gynnig ei hun fel hyfforddwr o'r radd flaenaf heddiw.

Yng nghanol bwrlwm Cystadleuaeth Cwpan y Byd 2010 eleni, boed i ninnau gofio am gyfoeth tîm ein heglwys a'i holl ddoniau ond yn bennaf oll am ein hyfforddwr - yr Arglwydd Iesu Grist - sydd bob amser wrth gefn ac yn barod i roi inni o'i arweiniad, ei gefnogaeth a'i gyngor.

Mwynhewch y pêl-droed!
Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR MIS MEHEIN 2010**

| **Cyhoeddwr y Mis: Eirian Reynolds** | **Organydd y Mis : Mair Evans** | |
|---|---|---|
| 6 Mehefin 2.30 | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun<br><br>Glenys a William Howells |
| 13 Mehefin 10.30 | Oedfa Deuluol: Gweinidog | |
| 20 Mehefin 2.30 | Oedfa Bregethu: Gweinidog | Gofal y Te : I'w drefnu |
| 27 Mehefin 10.30 | Clwb Sul bach ac Oedfa Bregethu: Gweinidog | |
| 4 Gorffennaf 2.30 | Oedfa Gymun Gweinidog | Bwrdd y Cymu: I'w drefnu |

7 Mehefin : Cinio Bara Caws: Capel y Morfa: 12.00-1.30yp. Croeso cynnes.

9 Mehefin: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys

16 Mehefin: Cymdeithas Bethel am 2.00yp. Edrychir ymlaen at groesawu Dr Hywel Davies a fydd yn traethu ar "Teithwyr yng Nghymru yn y Ddeunawfed Ganrif"

19 Mehefin: Taith Cymdeithas y Penrhyn i Fro Morgannwg – enwau i Ceris Gruffudd

23 Mehefin: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys

29 Mehefin : Cwrdd Gweddi Misol am 7.30yh

11 Gorffennaf : Gwibdaith i Silian

12-14 Gorffennaf : Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru ym Methel Glanymôr, Llanelli.

26 Gorffennaf : Ffair Haf yn Hafan y Waun

6 Hydref : Oedfa Ddiolchgarwch yn y Neuadd o dan arweiniad y Parchedig Tecwyn Ifan.

**LLOFFION**

**Dymunadau gorau** i Cerys H, Gillian a Shirley sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Diolch yn fawr** i Anwen a Mared am gymryd rhan yn y Gymanfa Ganu ym mis Mai.

**Diolch i bawb** yn y Clwb Sul a dynnodd lun ar gyfer y Bwrdd Arddangos ym mhabell Cytûn ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron a diolch i Ceri am roi'r cyfan at ei gilydd**.**

**Diolch i bawb** a fu'n casglu o ddrws i ddrws yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

**Llongyfarchiadau i bawb** a fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron. Roedd y cyfan yn llwyddiant mawr!

**Gwibdaith i Silian**: Cofiwch am y wibdaith ar yr 11eg o Orffennaf. Rhowch eich enwau i Judith cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn codi tâl o £5 tuag at gost y bws.

**Taith Dewi Sant** : Cofiwch am y genhadaeth a fydd yn digwydd yn yr ardal o'r 2ail -10fed o Hydref. Fe fydd angen sicrhau cartrefi lle gall y gwirfoddolwyr gael pryd o fywd gyda'r hwyr. Os ydych yn barod i wahodd dau wirfoddolwr am swper i'ch cartref yn ystod ail hanner yr wythnos byddem yn hynod ddiolchgar.